

Cofnodion Cyfarfod y 5ed Fawrth 2019

Yn bresennol :- Y Cadeirydd **Idris Thomas** a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams, Richard Llwyd Jones, Jane Pierce, Gareth Wyn Griffiths, Aled Green, Rhian Evans-Hill, R. Hefin Williams, Martin Davies a Emma Chappell.
Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll Jones

1.Ymddiheuriadau.

Gwawr Wyn Roberts a Lowri Hughes

Bu i'r Cyngor Longyfarch a dymuno yn dda i Eleri, y Clerc ar ei phenodiad fel Swyddog Gweinyddol Rhanbarth Eryri gyda'r Urdd.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Elwyn Jones am ddod yn daid unwaith eto

2.Datgan buddiant

Dim

3. Cofnodion Cyfarfod 5ed Chwefror 2019

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Phyllis Ellis (1)

Richard Ll. Jones (2)

4. Materion o'r cofnodion

Canolfannau Iaith – Derbyniwyd llythyr gan Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith gyda diweddariad ar ail strwytho y Canolfannau Iaith. Mae'r Cyngor eisioes wedi ysgrifennu ll d dangos eu gwrthwynebiad, ond mi fydd Cyngor Gwynedd yn gwneud penderfyniad terfynnol ar yr 2ail o Ebrill.

Lloches Bws Penisarwaun – Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn ymateb i'n cais am osod llwybr ar draws y gwair ger y cysgodfan o gyfeiriad Llys y Gwynt a Bryn Eglwys yn Penisarwaun. Mae'n edrych yn debyg fod hyn yn bosib, ond bydd rhaid disgwyl i gael asesiad gan beiranydd yn yr wythnosau nesaf.

Goleuadau Fflachio ger Ysgol Bethel – Yn dilyn ein cŵyn i Gyngor Gwynedd fod y goleuadau ddim yn gweithio, mae Cyngor Gwynedd yn y broses o'u harolygu.

Fainc ger Cae Metta – Sawl misoedd yn ôl bellach, bu i'r fainc yma gael ei tharo a'i malu, ac ni wyddom beth oedd wedi digwydd tan yn ddiweddar. Mae'n ymddangos fod yno ddwy lori o ddau gwahanol gwmni wedi bod yn danfon i'r ardal a'r ddwy wedi cyrraedd gyda'u gilydd, a bod un wedi taro'r fainc. Gan na allwn fod yn sicr o bwy sydd yn gyfrifol, penderfynwyd ysgrifennu i'r cwmni ysweiriant yn datgan yr hyn yr ydym yn wybod, gan obeithio cawn osod fainc arall yno, Hefyd esboniwyd fod y fainc yn cael ei defnyddio fel arwydd man troi i Lôn Cae Metta, gan nad oes arwydd ar y lôn yn nodi hyn. Penderfynwyd i'r clerch yrru cais i Gyngor Gwynedd am arwydd ar y lôn.

5.Gohebiaeth a materion eraill

Llwybr Troed Ffordd Grug at Ffordd Penrhos, Bethel – Derbyniwyd llythyr yn datgan fod Gwirfoddolwyr o Gymdeithas Cerddwyr Eryri wedi gweithredu trwy lanhau a thocio gordyfiant a oedd yn rhwystredig i'r llwybr yma yn ddiweddar. Gosodwyd arwyddion math saeth i ddynodi llinell y llwybr. Penderfynwyd gyrru llythyr o Ddiolch a datgan ein gwerthfawrogiad ar y gwaith yma.

Rhybydd Cyfyngiadau Parcio – Mae'n bosib bydd llinellau melyn dwbwl arfaethedig ar Stryd Wesla, Rhiwlas ger yr Hen Eglwys.

Parc Cenedlaethol Eryri – Derbyniwyd llythyr fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu LLeol Eryri. Penderfynwyd hefyd nad oes neb wedi ei benodi i gynrychioli Y Cyngor ar gyfarfodydd Parc Cenedlaethol Eryri. Y clerch i roi y mater hwn ar rhaglen mis Ebrill.

6. Cynllunio

Ni dderbyniwyd ceisiadau fis yma ond derbyniwyd llythyrau ynglyn a ceisiadau sydd wedi dod gerbron Y Cyngor o'r blaen:

Cae'r Foel, Dinorwig – Tynwyd sylw, trwy lythyr, fod datblygiadau yn cael ei wneud i'r eiddo sydd yn groes i'r cais cynllunio a ganiatawyd gan Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd i'r clerch gysylltu a adran cynllunio gyda'n pryderon, ac ymateb i'r llythyr.

Tŷ ger Monfa Cottage – Derbyniwyd llythyr gan y perchennog yn dilyn ein gwrthwynebiad i'r cais cynllunio. Mae'r Cyngor Cymuned yn penderfynnu a gweithredu yn unol a'r hyn sydd yn cael ei gyflwyno i ni o'r Cyngor Sir. Felly, gofynwyd i'r clerch ysgrifennu yn datgan hyn trwy lythyr i'r perchennog.

7. O gwmpas y Bwrdd

Bethel – Nodwyd fod fwy a mwy o faniau gwaith yn cael eu gweld wedi parcio ar hyd y ffordd fawr trwy Bethel.

Deiniolen – Mae cŵyno mawr eto ynglyn a baw ci yn yr ardal. Dywedodd Elfed, Y Cynghorydd ei fod yn disgwyl mwy o arwyddion, ac am gysylltu i geisio cael bagiau a ballu ar bolion.

Cae Bwthyn – Dywedodd Elfed yn dilyn trafodaethau yn Cyngor Gwynedd, y bydd swyddog o Cyngor Gwynedd yn cysylltu a Cyngor Cymuned i drafod Caeau Chwarae.

Brynrefail – Angen cysylltu a gweithiwr ynglyn a panel Newydd I gysgodfan bws Brynrefail a Penisarwaun.

Penisarwaun – Mae Cŵyno mawr ynglyn a'r gwaith sydd wedi ei wneud ar tai yr henoed, Llys y Gwynt a Bryntirion. Mid yw'r gwaith wedi ei gwblhau o safon o gwbl, ac mi oedd sawl un yn cŵyno fod y gweithwyr a oedd ddim yn lleol ddim yn gyfeillgar o gwbl.

Tŷ Mawr Cottages – Mae dŵr yn dal i sefyll ar y lôn ger y tai. Yna mae pryder am y gwaith neu'r stâd ac adeiladau sydd ar y tir. Y Clerch i gysylltu a priffyrdd ac adran gorfodaeth Cynllunio ynglyn a'r pryderon.

Biniau Halen – Mae'r Cyngor Cymuned wedi cytuno i dalu am halen yn y biniau halen, er mwyn galluogi bobl i'w ddefnyddio I glirio y lonydd er mwyn mynd i'w gwaith.

Am ein bod gyda chytundeb gyda Cyngor Gwynedd, Clerch Y Cyngor Cymuned yn unig sydd a'r hawl i archebu halen. Felly, yn dilyn tywydd garw ddechrau'r flwyddyn, bu iddi sicrhau fod yna halen ar gael a llenwi y biniau. Nid ydym wedi cael achos i'w ddefnyddio yn dilyn cael eu llenwi, ond mae yno ar gyfer tywydd o'r fath eto. Er hynny, mae yn ymddangos fod sawl bin yn wag, ac mae cynghorwyr pentrefi yn cadw cofnod, ynghyd a chyngor Gwynedd. Mae sawl un wedi nodi fod yr halen yn cael ei ddefnyddio ar dreif tai, yn hytrach nac ar y lonydd yn unig. Mae cost aruthrol i'r halen yma, gan fod yna 42 o focsys halen yn ardal Cyngor Llanddeiniolen, I lenwi unwaith y flwyddyn yn unig yn costio £2700. Felly y cais gan Y Cyngor Cymuned yw defnyddiwch yn ofalus, ond pan mae wir angen, ac ar y lonydd yn unig.